Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dolgarrog
# Ffordd Llanrwst
# Dolgarrog
# Conwy
# LL32 8QE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol yng nghanol pentref Dolgarrog yn Nyffryn Conwy. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o'i chwmpas. Nid yw'r ardal a wasanaethir ganddi yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.

Ar hyn o bryd, mae 57 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys wyth disgybl oed meithrin. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi wedi eu trydydd pen-blwydd ac yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae tua 28% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Mae 28% o'r disgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig sydd yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Darperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion, er mai Saesneg yw prif iaith cartref bron bob un ohonynt.

Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg gan ddau athro amser llawn a dau rhan amser. Mae'r pennaeth wedi bod yn gyfrifol am yr ysgol am 13 o flynyddoedd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dolgarrog yn 2012-2013 yw £5,148. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Conwy yw £12,262 a'r lleiafswm yw £3,081. Mae Ysgol Dolgarrog yn safle 13eg o'r 60 ysgol gynradd yn Sir Conwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion; a bod
- partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda iawn.

Fodd bynnag:

- mae safonau disgyblion dros gyfnod yn gyson is o'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2; a
- nid oes gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- ymroddiad aelodau'r staff i'r disgyblion dan eu gofal;
- bod prosesau a gweithdrefnau rheolaethol effeithiol yn eu lle;
- bod cynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar godi safonau; a
- pharodrwydd yr ysgol i gydweithio ag ysgolion eraill er budd y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

A2 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

A3 Datblygu ymhellach medrau hunan asesu'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

A4 Gwella dealltwriaeth y corff llywodraethol o dueddiadau data a chymariaethau ag ysgolion tebyg er mwyn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn well.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal. Mae niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Gan mai'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf i adrodd yn ôl arni yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes data dros amser ar gael. Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5 neu uwch, yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ym mhob maes dysgu sef iaith, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. O gymharu ag ysgolion a chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau am ddim roedd yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion ar gyfer pob un maes dysgu. Roedd y canrannau a gyflawnodd deilliant 6 yn uwch na'r teulu a Chymru mewn mathemateg ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ni chyflawnodd yr un disgybl ddeilliant 6 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd, sef y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru. Yn 2012, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran yn derbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn y chwarter isaf o ran y dangosydd pynciau craidd a phob pwnc yn unigol, ac eithrio mathemateg, oedd yn y chwarter uchaf. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn cyflawni lefel uwch o ystyried canlyniadau'r ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn eu gwersi, a thros gyfnod, mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u hoed a'u gallu. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent wedi'i ddysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae mwyafrif y disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn briodol, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn briodol mewn sawl pwnc.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn targedau personol ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ar lafar wrth ymateb i oedolion. Gwnânt hyn yn gynyddol hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd ac mae medrau'r disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym. Mae'r mwyafrif yn gwrando'n astud ac yn barod i gyfrannu'n frwdfrydig yn y

gwersi a sesiynau myfyrio.  Mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r cynnwys.  Defnyddiant ystod o strategaethau priodol yn llwyddiannus i fynd i'r afael â geirfa newydd.  Gwna llawer o'r disgyblion gynnydd disgwyliedig yn eu medrau ysgrifennu.  Maent yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa addas a diddorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda.  Maent yn barod i ymateb i gwestiynau'r athrawon a chynnig syniadau synhwyrol.  Er hynny, mae tueddiad i leiafrif ohonynt ddefnyddio'r Saesneg wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd.

Mae llawer wedi datblygu medrau darllen da mewn Cymraeg a Saesneg ac mae llawer yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da.  Nid yw'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau darllen  Saesneg i'r un graddau ag mewn Cymraeg i gywain a chyflwyno gwybodaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau clir sydd wedi eu hatalnodi'n gywir ac fe wneir defnydd priodol o brif nodweddion gwahanol ffurfiau ar ysgrifennu.  Serch hynny, ychydig iawn sydd  yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith i safon dda.  Nid yw disgyblion mwy abl yn dangos medrau ysgrifennu mwy datblygedig yn gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd a llawysgrifen lleiafrif o ddisgyblion yn y gwahanol bynciau.

**Lles:  Da**

Mae gan bron pob un disgybl ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn mwynhau bywyd yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn ymwybodol bod unrhyw fwlio yn digwydd.  Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa'n llwyddiannus o amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd priodol i ymgymryd â chyfrifoldebau, gan gynnwys y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.  Mae gan y cyngor rôl weithredol ym mywyd yr ysgol ac mae'r aelodau'n manteisio'n dda ar y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar waith yr ysgol.

Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac yn ddiweddar maent yn dechrau datblygu ffyrdd i leisio barn briodol am yr hyn y maent yn ei ddysgu.  Ar hyn o bryd nid yw hyder mwyafrif y disgyblion i werthuso  eu gwaith, a gwaith eu cyfoedion, wedi datblygu'n ddigonol.  Nid ydynt yn sicr bob amser beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae lefel presenoldeb y dysgwyr yn 95.6%, sydd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran disgyblion yn derbyn cinio yn ddi-dâl.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ddarpariaeth ddysgu yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dosbarth yn cyd-weithio'n effeithiol i ddarparu amrediad eang ac amrywiol o brofiadau diddorol i ennyn diddordeb y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion uwch eu gallu.

Mae gweithgareddau a phrofiadau tu hwnt i'r ysgol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm a'r meysydd dysgu yn effeithiol. Serch hynny, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yn llwyr effeithiol.

Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn frwdfrydig a chyson ac fe geir ethos Cymreig amlwg yn y dosbarthiadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru yn dda, gydag astudiaethau o'r gymuned leol a hanes Cymru yn cyfrannu'n werthfawr at hyn.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd amlwg yn yr ysgol. Sicrha'r ysgol fod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson a diddorol i ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r agweddau hyn. Mae gan yr ysgol bwyllgor eco brwdfrydig a gweithgar sy'n gweithio'n ddiwyd i hybu materion amgylcheddol yn gyson.

**Addysgu: Da**

Yn y gwersi a arsylwyd, roedd ansawdd yr addysgu ar y cyfan yn dda. Mae rheolaeth dosbarth ar draws yr ysgol yn gadarn a theg. Mae perthynas dda rhwng yr oedolion a'r disgyblion sy'n creu awyrgylch pwrpasol a chartrefol tuag at waith. Mae pob aelod o'r staff yn fodelau iaith da i'r disgyblion.

Mae dealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm gan yr holl staff ac maent yn cwestiynu disgyblion yn effeithiol i adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu syniadau. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau yn fedrus i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau ym mhob gwers yn gwbl addas i ddisgyblion o wahanol allu.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol yn gyson yn y gwersi ac yn aml yn ymateb i waith y disgyblion gan roi sylwadau adeiladol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i'r sylwadau er mwyn gwella eu gwaith. Nid yw'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn llawn er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu gwella eu gwaith eu hunain.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system dracio newydd yn ddiweddar i gryfhau'r broses o gadw golwg ar gynnydd disgyblion. Mae'r wybodaeth a gofnodir yn cael ei defnyddio'n briodol i gefnogi athrawon wrth osod targedau ar gyfer gwelliant.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Fe anogir disgyblion yn gyson i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sydd yn anghywir. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch am wirionedd a chyfiawnder yn treiddio drwy waith bob dydd yr ysgol. Mae'r gwasanaethau boreol a chyfnodau myfyrio yn sicrhau cyfle cyson i ddisgyblion fyfyrio ar y neges sy'n cael ei chyflwyno.

Mae'r broses o adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr iawn. Mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i anghenion penodol disgyblion ac yn sicrhau darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae cyd-weithio effeithiol rhwng holl aelodau'r staff a rhieni yn sicrhau'r gofal gorau. Mae cynlluniau addysg unigol yn fanwl a chlir ac yn cael eu gwerthuso'n gyson. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn sicrhau cymuned ofalgar, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Nodwedd amlwg yw'r ymdeimlad teuluol yn seiliedig ar egwyddorion sy'n parchu hawliau unigolion o fewn cymuned yr ysgol.

Mae'r ethos cynhwysol yn rhoi pwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y nifer disgyblion. Defnyddir y llyfrgell a'r neuadd yn bwrpasol iawn ar gyfer chwaraeon, gwasanaethau boreol a chyngherddau. Mae'r gofod allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a thir yr ysgol yn adnodd deniadol ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i hybu dysgu. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig amgylchedd diddorol.

Mae'r cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn rhannu ymrwymiad amlwg i hyrwyddo lles y disgyblion ac maent yn llwyddiannus iawn wrth wneud hyn. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol wedi eu hadolygu yn ddiweddar ac fe welir eu heffaith yn dechrau dylanwadu’n bositif ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae’r cynllunio strategol yn rhoi ffocws priodol ar wella’r ysgol drwy godi safonau’r disgyblion ymhellach.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swydd clir sy’n cael eu cyflawni’n dda. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chymorthyddion drwy gyfleoedd addas a rheolaidd i fynychu cyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd.

O dan arweiniad cadeirydd profiadol, mae’r corff llywodraethol newydd yn cryfhau ei ymwybyddiaeth o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ymweliadau â dosbarthiadau a hyfforddiant priodol gan yr awdurdod lleol wedi atgyfnerthu hyn. Mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol bellach yn gadarn a maent yn ymwybodol iawn o’r angen i fod yn fwy heriol.

Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd yn cael eu hadlewyrchu yn y cydweithio effeithiol sy’n bodoli ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dwyieithrwydd, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae’r staff yn gweithio’n dda gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd i ddatblygu elfennau cwricwlaidd a datblygiad proffesiynol staff.

**Gwella ansawdd: Da**

Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hunan arfarnu yn effeithiol. Defnyddir ystod dda o weithgareddau monitro gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion. Caiff aelodau’r staff gyfle buddiol i gyfrannu i’r broses o ddylanwadu ar gynnwys yr adroddiad drwy drafodaethau yn y cyfarfodydd staff wythnosol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw rôl y Llywodraethwyr yn y broses yn hollol effeithiol ac nid ydynt yn rhoi digon o bwys ar ddwyn yr ysgol i gyfrif. Gwerthfawrogir sylwadau’r rhieni a'r disgyblion ac fe roddir ystyriaeth fanwl iddynt.

Mae cynllun datblygu’r ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r hunan werthusiad ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac mae’r defnydd o ddata wrth dracio cynnydd y disgyblion yn herio’r ysgol i godi safonau ymhellach. Mae bwriadau’r cynllun wedi eu costio’n ofalus ac mae terfynau amser realistig a meini prawf llwyddiant pendant i fesur effeithiolrwydd y camau gweithredol.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi sy’n eu datblygu’n dda. Mae’r rhain yn cynnwys cyfleoedd i weithio mewn partneriaethau llwyddiannus gyda’r awdurdod lleol ac ysgolion lleol sydd wedi arwain at rannu arfer da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Ceir partneriaeth gref gyda rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth gyson a rennir gyda nhw. Mae ymatebion holiaduron yn bositif iawn ac nid ydynt yn awgrymu bod materion o bwys angen sylw.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda'r cylch Ti a Fi sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Mae hyn yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol ac mae'r trefniadau trosglwyddo yn effeithiol.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Mae'r gymuned wedi cyfrannu'n hael dros y blynyddoedd ac fe welir effaith hyn yn y gwellhad i'r ardal allanol a'r adnoddau a gyfrannwyd i'r ysgol. Yn ddiweddar, derbyniwyd £1,000 i brynu llyfrau darllen.

Mae'r bartneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol wedi sicrhau cefnogaeth werthfawr, yn enwedig wrth ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg. Fe rennir y safle gyda'r Ganolfan Iaith a manteisir ar bob cyfle i gydweithio er mwyn darparu'r profiadau ac adnoddau gorau posibl i'r disgyblion.

Ceir partneriaeth dda hefyd gyda'r cylch ysgolion sy'n bwydo'r ysgol uwchradd leol. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan holl aelodau'r staff gymwysterau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n dda ac yn rhannu eu harbenigedd yn effeithiol er budd yr holl ddisgyblion. Fe fanteisir yn llawn ar fedrau athrawon i gyfoethogi profiadau'r disgyblion mewn dosbarthiadau gwahanol. Fe geir enghreifftiau da o hyn mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cerdd ac addysg gorfforol.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorthyddion dosbarth ac mae eu cyfraniad yn cael effaith bositif ar ddisgyblion unigol.

Caiff pob un o'r staff perthnasol yr amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a defnyddir hyn yn bwrpasol i gynllunio a pharatoi adnoddau.

Rheolir cyflenwad da o adnoddau ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn effeithiol ac fe wneir defnydd da ohonynt. Mae disgyblion wedi elwa o swm sylweddol a glustnodwyd yn ddiweddar i wella offer cyfrifiadurol.

Mae'r corff llywodraethol yn diffinio pwerau ariannol y pennaeth yn glir ac mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth dda o raniad cyfrifoldebau.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian o ystyried deilliannau disgyblion.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal. Mae niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Gan mai'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf i adrodd yn ôl arni yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes data dros amser ar gael. Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd canran disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5 neu uwch, yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ym mhob maes dysgu sef iaith, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim roedd yr ysgol yn y chwarter isaf ar gyfer pob un maes dysgu. Roedd y canrannau a gyflawnodd deilliant 6 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn mathemateg ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ni chyflawnodd yr un disgybl ddeilliant 6 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd, sef y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, roeddyr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion o ran y dangosydd pynciau craidd a phob pwnc yn unigol ar wahân i fathemateg, oedd yn y chwarter uchaf. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn cyflawni lefel 5 o ystyried canlyniadau'r ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn targedau personol ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 11 holiadur wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefel bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn cymharu'n dda a chyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ymhob cwestiwn.

Mae pob rhiant/gofalwr yn datgan eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf iawn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod eu plant yn hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae pob rhiant/gofalwr hefyd yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae pob un datgan bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant/gofalwr yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda ac yn dweud fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob un yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.

Mae ychydig o rieni/gofalwyr yn teimlo nad ydynt yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion, ac mae ychydig iawn yn credu nad yw ymddygiad y disgyblion yn dda.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 22 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Ar wahân i ddau gwestiwn, mae'r lefel bodlonrwydd yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pob disgybl yn teimlo bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Mae pob un yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob disgybl yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae ychydig o'r farn nad yw pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae.

Mae lleiafrif y disgyblion yn teimlo nad yw gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol ac nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda i'w galluogi i wneud eu gwaith. Mae atebion cadarnhaol i'r ddau gwestiwn hwn yn is na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Merfyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ceren Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleri Roberts | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |